# Wythnos 1 / Oed meithrin
# Cyflwyniad i'r Beibl

## Cynllun y sesiwn

**Prif neges:** 'Mae'r Beibl yn rymus ac yn fwy miniog na chleddyf'

### Adnodau allweddol:


**Eseia 40.8**

*Mae'r glaswellt yn crino, a'r blodyn yn gwywo, ond mae neges yr Arglwydd yn aros am byth!*


**Hebreaid 4.12**

*'Mae neges Duw yn fyw ac yn cyflawni beth mae'n ei ddweud. Mae'n fwy miniog na'r un cleddyf.'*

### Adnoddau:



Dau Feibl




Pyped llaw



Cleddyf (un tegan)



Beiblau, neu luniau o Feiblau ar gyfer bob un o'r plant



# Gweithgaredd agoriadol: Brwydr Gleddyfau

Gofynnwch i'r plant a fyddai unrhyw un yn hoffi brwydr gleddyfau (os nad yw'r plant yn gwirfoddoli, yna gwnewch hyn gydag oedolyn parod).

Rhowch Feibl i'ch gwirfoddolwr a gyda'ch Beibl eich hun actiwch fel pe bai chi'n barod i ymladd â chleddyfau. Actiwch frwydr gleddyfau, gyda'r ddau Feibl yn lle cleddyfau.

**Nodyn:** Rhaid i hyn fod yn araf ac yn ofalus (o ystyried y grŵp oedran) wrth i chi actio'r frwydr gleddyfau gan ddefnyddio'r Beiblau yn lle cleddyfau.

**Addasu ar gyfer Zoom**

*Gofynnwch i deuluoedd ar y sgrin a ydyn nhw eisiau brwydr gleddyfau gyda chi. Anogwch nhw i ddod o hyd i rywbeth diogel - fel gwelltyn neu gleddyf tegan. PEIDIWCH â dangos iddyn nhw mai Beibl yw eich cleddyf chi tan yr eiliad olaf. Dywedwch y gall pawb, ar eich cyfrif o dri, ddechrau eu brwydr gleddyfau ar y sgrin. Bydd yr arweinydd yn brwydro, nid gyda chleddyf, ond gyda'r Beibl - os nad ydyn nhw wedi sylwi ar yn ar ôl munud neu ddwy, gofynnwch iddyn nhw stopio a gweld beth wnaethoch chi ymladd ag ef.*

# Gweithgaredd: Pranciau'r Pyped

Perfformiwch y sgript ganlynol gan ddefnyddio pyped. (Defnyddiwch unrhyw byped sydd gennych - gwnewch yn siŵr ei fod yn un â phersonoliaeth ddireidus. Yma rydyn ni'n defnyddio Pred y Camel).

**Pred:** Beth wyt ti'n ei wneud?

**Arweinydd:** Cael brwydr gleddyfau.

**Pred:** Be! Rwyt ti'n defnyddio llyfrau i gael brwydr gleddyfau? Wel, am wirion!!

**Arweinydd:** Ond dim 'unrhyw' lyfr yw hwn, Pred - dyma 'lyfr y llyfrau!'

**Pred:** Ie, ond dydy o ddim yn gleddyf.

**Arweinydd:** Na, ond mae'n fwy miniog mewn gwirionedd nag unrhyw gleddyf daufiniog.

**Pred:** Wyt ti wedi colli dy farblis ta be? Llyfr ydi o, llyfr wedi'i wneud o bapur - does dim ochrau miniog ganddo o gwbl (gan ddweud wrth y plant) - mae hi'n wallgof!!

**Arweinydd:** Y llyfr hwn yw'r llyfr GORAU yn y byd!

**Pred:** Dydy o ddim yn well na llyfr Elfed yr Eliffant.

**Arweinydd:** O ydy - go wir rwan, gan fod hwn yn llyfr llawn geiriau gan Dduw.

**Pred:** Geiriau Duw? Na, dwi ddim yn credu!

**Arweinydd:** Mae'r llyfr hwn yn newid bywydau pobl.

**Pred:** Newidiodd Elfed yr Eliffant fy mywyd i.

**Arweinydd:** Do wir? Sut?

**Pred:** Ar ôl ei ddarllen, paentiais fy hun yn lliwiau'r enfys - yn streipiau i gyd - roedd hynny'n newid MAWR.

**Arweinydd:** Ond newid na wnaeth bara'n hir! Dwyt ti ddim yn ymddangos yn streipiog heddiw?

**Pred:** Na, fe wnaeth y glaw eu golchi nhw i gyd i ffwrdd!


**Arweinydd:** Mae'r Beibl mor bwerus fel y bydd yn newid dy fywyd am byth! Mae mor bwerus â hynny!

**Pred:** Mwy pwerus na chleddyf hyd yn oed?

**Arweinydd:** Llawer iawn mwy pwerus na hynny!

**Pred:** Mae gen i syniad. Beth i ni gael brwydr gleddyfau - ond rwyt ti i ddefnyddio hwn (gan roi cleddyf tegan yn ei law) a byddaf i yn defnyddio'r Beibl - (i blant) - rydw i'n mynd i ennill gyda'r llyfr mwyaf pwerus yn y byd, yn llawn geiriau Duw! Wehei!

(Cynhaliwch frwydr gleddyfau byr, lle mae'r pyped yn ennill)



# Gweddi greadigol

Trefnwch amrywiaeth o Feiblau neu luniau o Feiblau mewn cylch ar y llawr. Gadewch i bob plentyn ddal ei Feibl neu lun o un i fyny fel cleddyf (dangoswch i'r plant sut i wneud hyn). Yn syml, gall plant tawelach roi eu dwylo ar y delweddau/Beiblau. Gofynnwch iddyn nhw gau eu llygaid. Fel y gwnânt, gan sefyll yn eu hunfan, gadewch iddynt esgus gynnal brwydr gleddyfau araf (dangoswch iddynt sut i wneud eto). Wrth iddyn nhw wneud hyn, adroddwch y weddi ganlynol:

**Gweddïwch**

*Diolch am y Beibl*

*Diolch mai hwn yw'r llyfr GORAU yn y byd*

*Diolch Dduw am roi llyfr llawn o'th eiriau i ni*

*Diolch ei fod yn fwy pwerus na chleddyf*


*Amen*

**Addasu ar gyfer Zoom**

- *Gofynnwch i rieni ymlaen llaw i ofalu bod ganddynt Feibl wrth law*
- *Neu e-bostiwch lun clawr Beibl atynt, er mwyn iddynt ei argraffu adref.*

## Sesiwn nesaf:

Sesiwn 2: Gwreiddiau ac Ystyr




CYMDEITHAS Y BEIBL